ELISABETH YR AlL, BRENHINES Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd lwerddon a'n Teyrnasoedd a'n Tiriogaethau eraill, Arweinydd y Gymanwlad, Ceidwad y Ffydd, trwy Ras Duw, i

Ein Gwir Ffyddlon a Thra annwyl:
Ralph Alan Griffiths.

Ein Ffyddlon a Thra annwyl:
Daniel Gruffydd Jones.
Alexandra Nicol.
Geoffrey John Wainwright, - Member of Our Most Excellent Order of the British Empire.
Eurwyn Wiliam.
Patrick Sims-Williams.
LIinos Olwen Wyn Smith.
John Arthur Newman.
David Wyatt Crossley.

Henffych!

GAN Ein bod wedi dirymu a phenderfynu a thrwy'r Dogfennau hyn ddirymu a phenderfynu ar bob Gwarant yn ôl yr hyn y penodwyd Comisiynwyr ar y chweched dydd o Ebrill 1992 i'r Comisiwn Brenhinol ar Henebion Cymru, ac ar unrhyw ddyddiad dilynol:

BYDDED YN AWR YN HYSBYS I CHWI Ein bod, trwy roi ymddiriedaeth a hyder mawr yn eich gwybodaeth a'ch gallu, wedi awdurdodi a phenodi, a thrwy'r Dogfennau hyn yn eich awdurdodi a'ch penodi, y dywededig Ralph Alan Griffiths (Cadeirydd), Daniel Gruffydd Jones, Alexandra Nicol, Geoffrey John Wainwright, Eurwyn Wiliam, Patrick Sims-Williams, LIinos Olwen Wyn Smith, John Arthur Newman, David Wyatt Crossley i fod yn Gomisiynwyr i'n Comisiwn a elwir bellach yn Gomisiwn Brenhinol ar Henebion Cymru, i arolygu a chofnodi henebion ac adeiladweithiau sydd yn gysylltiedig â diwylliant cyfoes, gwareiddiad ac amodau pobl Cymru o'r cyfnod cynharaf (gan gynnwys yr henebion a'r adeiladweithiau yng ngwely'r môr, arno neu oddi tano o fewn moroedd tiriogaethol y Deyrnas Unedig ger Cymru) neu sydd yn eu hegluro trwy gywain, cynnal a churadu Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru fel y cofnod cenedlaethol sylfaenol o'r amgylchedd archeolegol a hanesyddol: trwy nodi, arolygu, dehongli a chofnodi pob adeilad, safle a heneb o ddiddordeb archeolegol, pensaernïol a hanesyddol yng Nghymru neu o fewn y moroedd tiriogaethol ger Cymru, er mwyn gwella a diweddaru Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, a hefyd i ymateb anghenion statudol; trwy roi cyngor a gwybodaeth sydd yn berthnasol i warchod a chadw'r cyfryw adeiladau, safleoedd a henebion o ddiddordeb archeolegol, pensaernïol a hanesyddol; trwy gasglu a chyfnewid data â deiliaid cofnodion eraill a darparu mynegai ar gyfer data o ffynonellau

eraill: trwy annog y cyhoedd i ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael yng Nghofnod Henebion Cenedlaethol Cymru trwy bob modd priodol: trwy bennu a chynnal safonau cenedlaethol wrth arolygu, cofnodi a churadu cofnodion sy'n ymwneud ag archeoleg a phensaernïaeth hanesyddol a rhoi cyngor ar y materion hyn i gyrff eraill a thrwy fod yn gyfrifol am oruchwylio Safleoedd lleot a Chofnodion o Henebion:

AC yr ydym trwy'r Dogfennau hyn yn ewyllysio ac yn ordeinio y bydd Ein yn cynnwys Cadeirydd ac nid mwy na 10 person arall, a benodir Gennym ar gyngor Ein Harglwydd Cyntaf y Trysorlys mewn ymgynghoriad a'n Hysgrifennydd Gwladol a'n Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a bydd ein Hysgrifennydd Gwladol mewn ymgynhoriad â'n Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu ar delerau penodi'r Cadeirydd a'r Comisiynwyr; a bydd pob cyfryw Gomisiynydd a Chadeirydd yn dal ac yn gadael swydd a gellir ei ddiswyddo yn unol â thelerau ei benodiad: ni chaiff Comisiynydd heblaw am y Cadeirydd ei benodi am dymor sydd yn hwy na phum mlynedd ond bydd yn gymwys i'w ailbenodi: a chaiff Comisiynydd ymddiswyddo ar unrhyw adeg trwy roi rhybudd yn ysgrifenedig i'n Hysgrifennydd Gwladol: bydd y Comisiwn yn penodi ls-gadeirydd o blith y Comisiynwyr, a bydd y Comisiwn yn penderfynu ar delerau'r penodiad: ac os bydd Ein Hysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod Comisiynydd wedi bod yn absennol o dri chyfarfod o'r Comisiwn o'r bron heb ganiatâd y Comisiwn, neu ei fod wedi mynd yn fethdalwr neu wedi gwneud trefniant gyda'i gredydwyr, neu'n cael ei analluogi oherwydd salwch corfforol neu feddyliol, neu ei fod fel arall yn methu neu'n anghymwys i gyflawni swyddogaeth Comisiynydd, caiff Ein Hysgrifennydd Gwladol ei ddiswyddo ar ô1 ymgynghori â'n Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

AC yr ydym ar ben hyn yn ordeinio y bydd rhywun sydd yn bresennol mewn cyfarfod, os oes ganddo unrhyw fudd ariannol mewn unrhyw fater sy'n cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw, yn datgelu'r ffaith cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi cychwyn y cyfarfod ac na fydd, heb ganiatâd Comisiynwyr eraill sydd yn bresennol yn y cyfarfod, yn cymryd rhan wrth ystyried neu'n pleidleisio ar unrhyw fater yn ei gylch: gall ein Comisiwn weithredu ar hyn er gwaethaf swydd wag o blith ei Gomisiynwyr: ni fydd unrhyw gamgymeriad wrth benodi pob un neu unrhyw un o'r Comisiynwyr yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw un o weithrediadau Ein Comisiwn: yn ddarostyngedig i'r hyn a ddarperir drwy hon Ein Gwarant, caiff y Comisiwn reoleiddio ei weithdrefn ei hun:

AC er mwyn cyflawni dibenion hwn Ein Comisiwn yn well, yr ydym ni trwy'r Dogfennau hyn yn rhoi rhwydd hynt i chi alw ar bob â gwybodaeth y mae'n debygol y bydd ei hangen ar gyfer Cofnodion Henebion Cenedlaethol Cymru: cael gafael ar unrhyw lyfrau, dogfennau, cofrestrau a chofnodion a all roi'r wybodaeth drylwyraf ar y pwnc i chi, neu alw amdanynt; cyhoeddi, trwy adroddiad blynyddol, y cynnydd a wnaed a'r gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy, hyrwyddo neu gyhoeddi neu gynorthwyo i gyhoeddi gwybodaeth: derbyn a gwario arian a geir oddi wrth Ein Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ddarostyngedigi unrhyw amodau y gall eu gosod o bryd i'w gilydd: a gwneud yr holl gyfryw bethau eraill a fydd yn cyflawni dibenion hwn Ein Comisiwn yn fwy (gan gynnwys rhoi cymorth grant i drydydd partïon o dan amgylchiadau priodol):

AC yr ydym trwy'r Dogfennau hyn yn ewyllysio ac yn ordeinio y bydd yr holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau sy'n perthyn i'n Comisiwn a benodwyd o dan Warant 1992 a Gwarantau dilynol yn cael eu trosglwyddo trwy hyn i'n Comisiwn a benodwyd o dan y Warant hon: a bydd unrhyw gytundeb, trafodyn neu unrhyw beth arall a gafodd ei wneud neu ei weithredu trwy'r Comisiwn neu mewn perthynas ag ef o dan Warantau blaenorol, yn weithredol o hyn allan fel petai Ein Comisiwn a benodwyd o dan y Warant hon wedi ei wneud neu ei weithredu:

AC yr ydym yn ordeinio ar ben hyn y bydd unrhyw beth a wnaed neu sy'n cael ei wneud (gan gynnwys unrhyw beth a wnaed neu sy'n cael ei wneud o dan unrhyw ddeddf) trwy neu mewn perthynas â'n Comisiwn a benodwyd dan Warantau blaenorol cyn dyddiad llofnodi'r Warant hon, cyn belled ag y mae ei angen i barhau i fod yn effeithiol fel pe bai wedi ei wneud gan Ein Comisiwn a benodwyd dan y Warant hon neu mewn perthynas ag ef: ac y bydd unrhyw gyfeiriad mewn unrhyw ddeddf neu ddogfen bynnag arall i'r Comisiwn a benodwyd o dan Warantau blaenorol, onid ymddengys y bwriad i'r gwrthwyneb, yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad i'n Comisiwn a benodwyd dan y Warant hon:

AC yr ydym yn ordeinio ar ben hyn y bydd yr holl arian ac eiddo y bydd hwn Ein Comisiwn yn ei dderbyn, gan gynnwys unrhyw arian a geir oddi wrth Ein Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn cael ei ddefnyddio tuag at hyrwyddo dibenion Ein Comisiwn yn unig: ac oni fydd Ein Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyfarwyddo felly, ni fydd y Comisiwn yn gwneud unrhyw daliad i'r Comisiynwyr ar wahân i ad-dalu treuliau parod rhesymol a chywir:

AC yr ydym yn eich awdurdodi ac yn eich ymrymuso i benodi Ysgrifennydd, gyda chymeradwyaeth Ein Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol a'r cyfryw delerau parthed cydnabyddiaeth, arian rhodd ac fel arall fel y gwelwch yn dda gyda'r cyfryw gymeradwyaeth, a'r cyfryw swyddogion eraill yn unol â'r cyfryw delerau parthed cydnabyddiaeth, arian rhodd ac fel arall fel y gwelwch yn dda: ar yr amod bob amser y bydd y cyfryw gydnabyddiaeth neu hawliau eraill yn unol a'r telerau a gymeradwyir gan Ein Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

AC yr ydym trwy'r Dogfennau hyn yn ordeinio ar ben hyn y caiff unrhyw Gomisiynydd neu swyddog o'r Comisiwn a awdurdodir (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r perwyl hwnnw gan y Comisiwn wneud unrhyw beth y bydd Ein Comisiwn yn ei awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol i'w wneud o dan y Warant hon: ac y bydd pob Comisiynydd a swyddog o'n Comisiwn yn cael ei indemnio yn erbyn yr holl gostau a threuliau a cholledion y bydd o bosibl yn agored iddynt oherwydd unrhyw weithred neu beth a wneir ganddo wrth gyflawni ei swydd neu ei ddyletswydd yn gywir:

AC yr ydym trwy hyn yn caniat a'u ac yn datgan, i Ni, i'n Hetifeddion a'n Holynwyr, y bydd Ein Gwarant neu ymrestru ynddi yn ddilys ac yn weithredol yn ôl y gyfraith ym mhob peth yn unol â'i gwir fwriad ac ystyr ac y caiff ei hystyried, ei dehongli a'i barnu yn yr ystyr fwyaf buddiol a llesol ac er budd gorau hwn Ein Comisiwn, yn Ein Llysoedd

Cofnodi yn ogystal ag mewn mannau eraill, er gwaethaf unrhyw achos o beidio â rhestru, camrestru, ansicrwydd neu wall yn hon Ein Gwarant:
AC yr ydym trwy'r Dogfennau hyn yn ewyllysio ac yn ordeinio y bydd hwn Ein Comisiwn yn parhau yn ôl ei rym a'i rinwedd llawn ac y cewch chwi, Ein dywededig Gomisiynwyr, neu unrhyw bump neu ragor ohonoch, barhau i'w weithredu o bryd i'w gilydd, a phob mater a pheth yn hynny o beth y parheir ag ef, er na pharheir ag ef drwy ohino o bryd i'w gilydd:

AC yr ydym yn ordeinio ymhellach y byddwch, neu unrhyw bump neu ragor ohonoch, yn adrodd yn gyfnodol ar eich gweithrediadau o dan hwn Ein Comisiwn i'n Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyfryw adegau ac yn y cyfryw fodd ag y gallai gael ei gyfarwyddo.

Rhoddwyd yn Ein Llys yrn:
Mhalas Buckingham;
Y 12fed ddydd o Grffennaf 2000;
Yn ystod Nawfed Flwyddyn a Deugain Ein Teyrnasiad.

Ar Orchymyn Ei Mawrhydi